



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Cychwynnol Ystadau Cymru



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	3	Prosiectau allweddol ar gyfer Ystadau Cymru	6
Sail yr adroddiad	4	Mapio Rhanddeiliaid, Cyfathrebu, Brandio a Chynllunio Ymgysylltu	6
Ystadau Cymru	4	Sgiliau a Hyfforddiant	6
Cydweddiad strategol	4	Ffrydiau Cyllido	6
Cyflawniadau – map o'r rhanbarthau	5	Trosglwyddo Asedau Cymunedol	6
Gogledd Cymru	5	Pecyn Cymorth Cydweithredol	6
De-ddwyrain Cymru	5	Meincnodi a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Eiddo	6
Abertawe Bro Morgannwg	5	Rhaglen Gydwethredu Cymru ar Asedau (ACPW)	7
Cwm Taf	5	Is-adran Tir Llywodraeth Cymru	7
Caerdydd a'r Fro	5	Gwefan Ystadau Cymru	7
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	5	Cynhadledd Ystadau Cymru	8

Rhagair y Cadeirydd

Cenhadaeth Ystadau Cymru yw cydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ystad gyhoeddus yng Nghymru.

Ers ein hadolygiad o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol, daeth yn amlwg bod angen i ni fod yn glir ynghylch ein diben a chyrraedd sefydliadau er mwyn galluogi mwy o gydweithredu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, gwnaethom ailfrandio Ystadau Cymru a datblygu strategaeth glir ar gyfer y dyfodol.

Hwn yw ein hadroddiad cynnydd cyntaf i randdeiliaid sy'n nodi'r hyn rydym yn ceisio ei wneud a sut y gallwch gyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru gan ddefnyddio'r ystad i ysgogi newid.

STRATEGAETH YSTADAU CYMRU

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus

MANTEISION PENDANT


- Creu Twf Economaidd
- Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cynaliadwyedd Cymdeithasol / Amgylcheddol
- Dosbarthu gwasanaethau sy'n fwy integredig
- Lleihau Costau Rhedeg Ystadau
- Gwerth Da am Arian
- Cynhyrchu Mwy o Dderbyniadau Cyfalaf

MANTEISION MEDDAL

- Cydweithio
> Hwyluso'r gwaith o gyflawni cydamcanion
- Cymuned
> Rhannu gwybodaeth / arferion gorau
- Consensus
> Cydgyfeirio hirdymor
- Y dinesydd
> Gwella'r profiad o wasanaethau, darparu gwasanaethau sy'n fwy integredig ac sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer
- Creu twf economaidd
e.e. rhyddhau tir cyhoedus ar gyfer tai



SAAB
(BWRDD CYNGHORI AR
ASEDAU STRATEGOL)



Sail yr adroddiad

Hwn yw adroddiad cyntaf Ystadau Cymru ers iddo gael ei ailfrandio o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol a bydd yn nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y bwrdd, gweithgorau rhanbarthol ategol ac arweinwyr prosiectau unigol ers iddo gael ei sefydlu yn 2018.

Ystadau Cymru

Mae Ystadau Cymru, sef y Gweithgor Asedau Cenedlaethol gynt, yn hyrwyddo rhagoriaeth yn y gwaith o reoli ystad sector cyhoeddus Cymru. Mae'n targedu drwy gydweithredu'n strategol a darparu canllawiau arfer da ar y canlynol:

- creu twf economaidd
- darparu gwasanaethau sy'n fwy integredig ac sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer
- cynhyrchu derbynebau cyfalaf
- lleihau costau rhedeg
- datgarboneiddio'r ystad gyhoeddus
- gwella bioamrywiaeth.

Cydweddiad strategol

Nododd Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol (2017) fod angen:

“arheoli asedau mewn ffordd sy'n fwy cydweithredol a rhagweithiol ar draws sector cyhoeddus Cymru sy'n agor y drws i integreiddio gwasanaethau (gan gynnwys rheoli ystadau), gwella profiad cwsmeriaid ac i fod yn fwy effeithiol. Roedd hefyd yn cynnig potensial i symleiddio'r ystad a gwella ansawdd yr asedau gwasanaethau cyhoeddus drwy fuddsoddi mwy mewn llai o asedau diriaethol a rennir. Bydd hyn yn caniatáu i asedau ychwanegol gael eu cynnwys, weithiau ar y cyd, wrth ryddhau tir ar gyfer cartrefi newydd a datblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.”

Gan adeiladu ar hynny, a'r arferion da a'r heriau a nodwyd yn yr adroddiad ar Gynllun Peilot Cwm Taf (2017), mae Ystadau Cymru yn ceisio meithrin gallu i reoli ystadau mewn modd cynhwysfawr a strategol er mwyn atal gwneud penderfyniadau 'seilo' am eiddo a chyflawni strategaeth a mentrau ystadau a arweinir gan wasanaethau mewn modd cydweithredol.

Nod gwaith Ystadau Cymru yw diwallu anghenion newidiol a mwy beichus rheolwyr yr ystad sector cyhoeddus adatblygu'r adnoddau a'r canllawiau sydd eu hangen i gefnogi a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo cydweithio ymhellach.


Mae'r mentrau a'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd yn llwyr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio a'i saith nod llesiant. Mae'r Grŵp yn awyddus i gefnogi'r her yn y Ddeddf, sef y dylai gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio dull mwy cyfannol wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried pethau o safbwynt llawer ehangach a chydabod y gyd-ddibyniaeth sy'n bodoli, a phwysigrwydd cydweithio.

At hynny, yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth 'Ffyniant i Bawb' (Cefnogi Pobl ac Ysgogi Ffyniant a Chanolbwyntio ar Dwf Cynaliadwy Hirdymor) mae'r Grŵp yn hwyluso cyfleoedd i fabwysiadu dull strategol o ymdrin ag eiddo a rheoli eiddo ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol.

Mae'r aelodau craidd yn cynnwys yr Heddluoedd (Gogledd a De Cymru), Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW), Cymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau (ACES), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Un Llais Cymru (i Gyngorau Tref a Chymuned), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asiantaeth Eiddo Llywodraeth y DU (GPA), Cydwasanaethau'r GIG, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chyngres yr Undebau Llafur (TUC).

Cyflawniadau – map o'r rhanbarthaus

Mae'r Grŵp hefyd wedi sefydlu chwe grŵp isranbarthol er mwyn sicrhau bod Ystadau Cymru a'i fentrau yn fwy gweladwy a pherthnasol i ddatblygu'r adnoddau a'r canllawiau sydd eu hangen i gefnogi a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo cydweithio ymhellach; ac atgyfnerthu a datblygu gweithgarwch ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid.



© Hawffraint y Goron 2020
Cartograffig - Llywodraeth Cymru
ML/13/20.21
Gorffennaf 2020

OGL

Mae'r grwpiau fel a ganlyn:

Gogledd Cymru

- Mae'r gwaith mapio asedau bron wedi'i gwblhau ar gyfer y rhanbarth hwn ac mae wedi cynnig cyfle i'r bwrdd iechyd ac awdurdod lleol gydleoli. Cydnabyddir bod angen i'r rhanbarth ddatblygu ei gysylltiadau gwaith â'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Nod y cadeirydd yw annog y cydwasanaethau i gynyddu eu diddordeb a'u cyfranogiad mewn trefniadau cydweithredu.

De-orllewin a Chanolbarth Cymru

- Roedd dosbarthiad da o fewnbwn gan bartneriaid ledled y rhanbarth, gan gynnwys y trydydd sector ac mae'r rhanbarth wedi gwneud cynnydd da o ran ei adolygiad o asedau a gwaith mapio sy'n cynnwys sawl partner yn y rhanbarth, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Abertawe Bro Morgannwg

- Cafwyd sawl cais am gyllid grant gan ACPW ar gyfer cydweithredu ar asedau a bu nifer bach o'r ceisiadau yn llwyddiannus.
- Parhaodd â'r gwaith rhwydweithio da ar gyfer y mwyafrif o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ardal y bae.

Cwm Taf

- Nododd feysydd posibl ar gyfer cydweithio mewn perthynas â chaffael contractau yn dilyn ymarfer casglu data.
- Ystyriodd gyfleoedd arloesol i fanteisio ar ein hasedau ("Sweat our Assets") ledled y rhanbarth er mwyn cynhyrchu ffrydiau referniw o barseli o dir segru.

Caerdydd a'r Fro

- Mae'r grŵp yn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau ac yn mynd ati i nodi cyfleoedd i gydweithredu ar asedau a gweithio mewn partneriaeth.
- Cafodd Fradd Consulting ei benodi'n gystadleuol gan y Grŵp i gynnal Adolygiad 'Gwneud i Asedau Weithio' yn y rhanbarth.

De-ddwyrain Cymru

- Mae ymarfer mapio asedau cyhoeddus wedi arwain at Astudiaeth Dichonoldeb ynghylch cyfle cydleoli posibl ym Mhont-y-pŵl.
- Mae Grŵp Asedau Sector Cyhoeddus Gwent Gyfan G10, sydd newydd ei ffurfio, wedi'i sefydlu ers mis Ebrill 2019, o dan gadeiryddiaeth Mark Williams o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Prosiectau allweddol ar gyfer Ystadau Cymru

Yn ogystal â'r prosiectau a ddatblygwyd gan y grwpiau rhanbarthol, mae Ystadau Cymru hefyd wedi comisiynu sawl prosiect strategol:

Mapio Rhanddeiliaid, Cyfathrebu, Brandio a Chynllunio Ymgysylltu

- Cafodd ei ailfrandio a'i ail-lansio fel Ystadau Cymru, wedi'i ategu gan y gwaith o ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu newydd.
- Cynhaliwyd Cynhadledd flynyddol gyntaf Ystadau Cymru ar 3 Hydref 2019. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar fanteision cydweithio a gwneud y defnydd gorau o'r ystad gyhoeddus.

Sgiliau a Hyfforddiant

- Cafodd yr adroddiad terfynol ar hyfforddiant a sgiliau ei rannu â bwrdd Ystadau Cymru ar ôl ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol (RICS), y GIG a'r Heddlu a'r gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r adroddiad yn gatalydd ar gyfer trafod ac adolygu sgiliau strategol presennol, heriau o ran hyfforddiant a chyfleoedd yn y dyfodol a reolir ganddynt o fewn eu hystadau strategol a'u gweithlu rheoli asedau strategol.
- Mae argymhellion a awgrymir wedi'u cyflwyno i'r bwrdd yn y gobaith y gall y rhain gael eu datblygu gan y bwrdd.

Ffrydiau Cyllido

- Mae prosiect allweddol ffrydiau cyllido yn dal i fynd rhagddo yn y gobaith y deuir o hyd i ffrydiau cyllido i hyrwyddo trefniadau cydweithredu Ystadau Cymru yn y dyfodol.

Trosglwyddo Asedau Cymunedol

- Lansiodd y canllaw wedi'i ddiweddarau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol i'r sector yng nghynhadledd Ystadau Cymru ar 3 Hydref 2019, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. <https://llyw.cymru/trosglwyddo-asedau-cymunedol-canllawiau-i-ymgeiswyr>
- Mae prosiect ymchwil Trosglwyddo Asedau Cymunedol, a gomisiynwyd gan Dîm Polisiâu'r Trydydd Sector a Chymunedau Llywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar 'Deall y profiadau o Drosglwyddo Asedau Cymunedol' o fewn y trydydd sector a'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref'. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2020.

Pecyn Cymorth Cydweithredol

- Mae Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru yn cydnabod bod cydweithredu yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n fwy effeithlon. Mae angen cydweithrediad er mwyn i Sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus allu cydweithio i gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Cymru. Lansiodd dogfen y Pecyn Cymorth Cydweithredol i'r sector yng nghynhadledd Ystadau Cymru ar 3 Hydref 2019, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. <https://llyw.cymru/pecyn-cydweithredu-yng-hylch-eiddo>

Meincnodi a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Eiddo

- Cynhaliwyd gweithdy i ystyried y sail dros ddangosyddion perfformiad allweddol yng nghynhadledd Ystadau Cymru (yn seiliedig ar fanteision disgwylieidig gofynnol Ystadau Cymru).
- Mae set o ddangosyddion perfformiad allweddol drafft wedi'i chyflwyno i'r bwrdd gyda gweithdy penodol i drafod symud ymlaen.

Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW)

Roedd ACPW yn rhaglen grant y bwriadwyd iddi gyflymu ac atgyfnerthu gweithgarwch cydweithredu ym mhob rhan o sector cyhoeddus Cymru, gan hyrwyddo datblygu a chyflawni amrywiaeth o brosesau rheoli asedau, adnoddau mapio a gweithgareddau yn 2018/19.

Yn ystod 2017/18 neilltuwyd a darparwyd tua £800k i gefnogi gweithgarwch a phrosiectau cydweithredol, sef:

- tri phrosiect cydweithredol a gynhaliwyd gan is-grwpiau rhanbarthol, gyda phob un ohonynt yn nodi cyfleoedd i gydweithio drwy goladu data, datblygu prosiectau a nodi cyflawniadau. Disgrifir y rhain fel fersiwn fwy penodol o Astudiaeth Cwm Taf
- cynllun cyflawni ar gyfer canolfan gydweithredol i'r sector cyhoeddus yn Aberhonddu
- model newydd ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn Abertawe
- prosiect trawsnewid asedau chwaraeon yn Wrecsam
- adolygiad strategol o asedau diwydiannol ym Mlaenau Gwent
- prosiect i gynnal astudiaeth dichonoldeb o'r economi gylchol
- cymorth ar gyfer y dechnoleg i gynnal arolygon defnyddio lle mewn pum sefydliad partner yn y sector cyhoeddus
- ymchwil i'r heriau a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â Throsglwyddo Asedau Cymunedol, wedi'i thargedu at gyrrff cyhoeddus a'r trydydd sector.

Ar hyn o bryd mae derbynwyr grant ACPW wrthi'n cyflwyno adroddiadau gwerthuso. Daw'r gwerthusiadau hyn yn rhan o'r arferion gorau rydym yn gobeithio eu rhannu â phob rhan o Sector Cyhoeddus Cymru. Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei rannu yn ystod y misoedd i ddod.

Is-adran Tir Llywodraeth Cymru

Mae gwaith Ystadau Cymru yn cael ei wneud o dan nawdd Is-adran Tir Llywodraeth Cymru, sydd newid ei sefydlu. Rôl yr Is-adran yw gweithio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn rhyddhau potensial asedau cyhoeddus i ysgogi dull mwy gweithredol o ddefnyddio a datblygu tir er budd y cyhoedd. Mae synergeddau clir am fod yr Is-adran yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a darparu mecanwaith ar gyfer rhannu arbenigedd er mwyn inni allu gweld ymateb ar y cyd gan y sector cyhoeddus i ddatblygu tir cyhoeddus er mwyn sicrhau manteision polisi ehangach.

Gwefan Ystadau Cymru

Mae gwefan newydd Ystadau Cymru bellach yn fyw yn: <https://llyw.cymru/ystadau-cymru> sy'n cynnwys y Canllaw wedi'i ddiweddarau ar Drosoglwyddo Asedau Cymunedol, y Pecyn Cymorth Cydweithredol newydd ac adroddiad Cwm Taf.

Cynhadledd Ystadau Cymru

Roedd yr adborth anffurfiol cychwynnol a gafwyd gan yr aelodau a oedd yn bresennol yng nghynhadledd gyntaf Ystadau Cymru yn gadarnhaol iawn gyda phwyslais yn cael ei roi ar y lleoliad a'r ffaith bod y Gweinidog wedi aros i wrando ar y cyflwyniad 'Trosolwg o'r Rhanbarthau' ar ôl ei Haraith hi.

Aeth dros 70 o bobl i'r digwyddiad gan gymryd rhan mewn gweithdai a sesiynau llawn a gafodd dderbyniad da. Gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad hwn, cytunwyd y byddai Ystadau Cymru yn cynnal cynhadledd flynyddol ynghyd â seremoni wobrwyo i arddangos prosiectau cydweithredol.

Cytunodd bwrdd Ystadau Cymru, ynghyd ag ymateb cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol, y dylid cynnal cynhadledd bob blwyddyn. Yn y dyfodol, cytunwyd i hyrwyddo cydweithredu o fewn y sector gyda seremoni wobrwyo yn cwmpasu twf economaidd, cynaliadwyedd, gwasanaethau integredig a ffactorau ariannol.

Disgwylir i gynhadledd flynyddol nesaf Ystadau Cymru gael ei chynnal tua diwedd yr hydref 2020. Ewch i wefan Ystadau Cymru yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiad penodedig.



Cadeirydd Umar Hussain MBE gyda Rebecca Evans, AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gyda'r canllaw ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol a dogfen y Pecyn Cymorth Cydweithredol a lanswyd yn y digwyddiad